

John O'Shea
Pennaeth
Coleg Merthyr Tudful
Ynysfach
Merthyr Tudful
CF48 1AR

Awst 2014

Annwyl Mr O'Shea

Adolygiad Estyn o Berfformiad ar gyfer Coleg Merthyr Tudful

Yn dilyn yr ymweliad â'ch sefydliad ar 23 a 24 Mehefin 2014 ynghylch yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, mae'r llythyr hwn yn adroddiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr ar wefan Estyn.

Bu Bernard Hayward AEM a Gill Sims AEM yn arfarnu perfformiad presennol y sefydliad ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o arolygiadau blaenorol. Buont yn cyfarfod ag uwch reolwyr a rheolwyr canol a grŵp bach o ddarlithwyr. Fe wnaethant graffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion arolygu blaenorol. Hefyd, fe wnaethant ystyried ansawdd y ddarpariaeth ym maes dysgu adeiladu.

Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, adroddodd yr arolygwyr eu canfyddiadau i'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth.

Unodd y coleg â Phrifysgol Morgannwg yn 2006 ac, o 2007 ymlaen, bu'n gwmni cyfyngedig trwy warant. Bellach, mae'n is-gwmni i Brifysgol De Cymru. Arolygwyd y coleg ddiwethaf yn 2010.

Canlyniad ymweliad yr arolygwyr cyswllt

Ers arolygu Coleg Merthyr Tudful ym mis Mawrth 2010, mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â'r argymhellion a adawyd gan y tîm arolygu.

1 Deilliannau a safonau

Mae bron tri chwarter y dysgwyr sy'n mynychu'r coleg yn dod o ardaloedd â lefelau difreintedd uchel. Mae gan lawer o'r dysgwyr hyn fedrau sylfaenol gwael wrth gychwyn yn y coleg. Mae gan y coleg bolisi cynhwysol ac mae'n annog dysgwyr i

fynd ymlaen i gyrsiau lefel uwch, ac mae'n rhoi cymorth ychwanegol i ddysgwyr cyrsiau Safon Uwch a chysiau Lefel 3 eraill er mwyn eu helpu i lwyddo. Mae'r holl ddata cyrsiau yn dangos y bu gwelliant o dri phwynt canran mewn llwyddiant dysgwyr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r coleg yn parhau gerllaw'r cyfartaledd ar gyfer pob coleg yng Nghymru. Mae tuag un o bob pum dysgwr yn mynychu cyrsiau mewn meysydd dysgu uchel eu perfformiad, ond mae cyfran debyg yn mynychu cyrsiau mewn meysydd dysgu sy'n tanberfformio.

2 Medrau Hanfodol

Mae'r coleg yn gweithio'n dda i ddatblygu strategaethau i addysgu llythrennedd a rhifedd sy'n annog dysgwyr i wella'u medrau. Mae uwch staff yn adolygu effeithiolrwydd y strategaethau hyn yn rheolaidd ac yn gwneud newidiadau a gwelliannau priodol. Mae pecyn cymorth llythrennedd y coleg yn cael ei ddefnyddio'n briodol mewn sawl maes dysgu ac, yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cyflwyno pecyn cymorth rhifedd er gwybodaeth i staff. Mae athrawon yn cael cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddiant, a gyflwynir gan arbenigwyr cymwys, i wella'u medrau wrth addysgu llythrennedd a rhifedd ac wrth fodloni anghenion unigol dysgwyr.

Mae'r holl ddysgwyr yn cael asesiad cychwynnol cyn neu yn ystod y cyfnod ymrestru. Hefyd, derbyniant asesiad diagnostig os yw'n briodol. Mae'r rhain yn galluogi tiwtoriaid i osod targedau llythrennedd a rhifedd priodol ac i nodi'r dysgwyr hynny y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r coleg yn cynnig ystod ddefnyddiol o opsiynau cymorth, gan gynnwys sesiynau i grwpiau bychain, gwersi dosbarth cyfan a gweithdai.

Mae'r coleg wedi sefydlu polisi marcio ar gyfer llythrennedd i alluogi tiwtoriaid a dysgwyr i rannu'r dull o fynd i'r afael â gwallau sillafu, gramadeg ac atalnodi cyffredin. Fodd bynnag, ni chaiff hwn ei ddefnyddio'n ddigon cyson ar draws dosbarthiadau a meysydd dysgu.

3 Addysgu ac asesu

Mae'r coleg yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau effeithiol i wella dysgu, addysgu ac asesu. Fel blaenoriaeth, mae'r coleg yn buddsoddi adnoddau mewn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i alluogi staff addysgu a chymorth i wella'u medrau ar gyfer cyflwyno llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr ar bob lefel.

Yn rhan o'r strategaeth llythrennedd a rhifedd, mae'r coleg wedi gosod targedau i staff addysgu a staff cymorth ennill cymwysterau perthnasol pellach, yn dibynnu ar eu rolau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys Ymarferwyr Medrau Hanfodol (Lefel 3) a chymwysterau Lefel 2 i staff cymorth dosbarthiadau. Mae athrawon mewn meysydd academaidd a galwedigaethol yn ymgymryd â hyfforddiant gan ddefnyddio'r Pecynnau Cymorth Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r cydlynnydd yn monitro'r gweithgareddau hyn i fesur yr effaith ar gynnydd dysgwyr, asesiadau a chynlluniau marcio athrawon, cynlluniau dysgu unigol a gwelliant o ran Sgiliau Hanfodol Cymru, ac ymgorffori medrau mewn cynlluniau gwaith a chynlluniau dysgu.

Mae arsylwi ar wersi gan gymheiriaid yn llywio cynnwys y rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus a phrosesau sicrhau ansawdd. Caiff athrawon newydd gefnogaeth dda a chaiff arfer dda ei nodi a'i rhannu ar draws y coleg.

4 Y cwricwlwm

Yn sgil dod yn sefydliad trydyddol ar gyfer ysgolion uwchradd yr awdurdod lleol, bu galw cynyddol am gyrsiau AS ac A2. Yn y flwyddyn gyntaf, roedd cyflwyno'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth AS. Mae'r coleg wedi sefydlu darpariaeth briodol fel bod lle i'r dysgwyr newydd ac mae wedi darparu cyfleusterau newydd iddynt yn y coleg newydd. Fodd bynnag, newidiodd lleiafrif sylweddol o ddysgwyr y rhaglen a ddewiswyd ganddynt o AS i BTEC yn ystod y flwyddyn gychwynnol. Mae'r coleg wedi gwella trefniadau gydag ysgolion lleol i sicrhau bod y rhaglenni a ddewisir gan y garfan nesaf o ddysgwyr wedi'i seilio ar wybodaeth well cyn iddynt drosglwyddo o'r ysgol.

Mae'r coleg yn defnyddio ystod o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y farchnad lafur, i gynllunio a chyflwyno'r rhaglenni sy'n ateb y galw. Mae wedi datblygu cysylltiadau da â chyflogwyr lleol ac mae'n ymateb yn dda i fentrau lleol gyda grwpiau cyflogwyr. Mae'r coleg yn adolygu'r cwricwlwm a gynigir yn ofalus. Dros y blynyddoedd, mae aelodau staff unigol wedi meithrin cysylltiadau da ag arbenigwyr allanol mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau ac maent yn defnyddio'r rhain yn dda i gefnogi gwaith prosiect dysgwyr ac i gynnig profiad gwaith. Mae aelodau newydd y staff academaidd yn datblygu cysylltiadau â sefydliadau addysg uwch ac mae'r cymorth ar gyfer datblygiad y cwricwlwm a dilyniant gan Brifysgol newydd De Cymru yn parhau'n gryf. Serch hynny, rhwng 2011-2012 a 2012-2013, fe wnaeth nifer yr ymrestriadau ar gyfer addysg bellach yn y coleg ddirywio'n sylweddol.

5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Bu newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'r coleg yn gweithredu. Mae wedi newid i adlewyrchu'r trefniadau trydyddol newydd gyda'r awdurdod lleol yn sgil symud i adeilad newydd y coleg. Mae arweinwyr y coleg wedi defnyddio'r newidiadau hyn i adolygu'r strwythur trefniadaethol ar gyfer arweinwyr a rheolwyr ar lefelau strategol a gweithredol. Nod y strwythur newydd yw gwella cyfathrebiadau ar draws y coleg. Yn ogystal, bwriedir i gyfrifoldeb newydd y penaethiaid isadrannau am ddeilliannau yn eu meysydd dysgu gael effaith gadarnhaol ar berfformiad.

Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwr yn deall eu rolau ac yn llenwi swyddi gwag trwy recriwtio aelodau newydd sy'n ychwanegu at fedrau'r cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r Bwrdd yn gweithio'n agos gydag uwch reolwyr i sefydlu targedau realistig a heriol ac maent yn herio staff uwch yn drylwyr i wella perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r coleg yn gwneud defnydd effeithiol o is-bwyllgorau'r brifysgol a'r arbenigedd sydd ar gael yn y brifysgol.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn adolygu'r cwricwlwm a gynigir yn gyson ac yn canolbwyntio'n gryf ar anghenion y gymuned leol, yn enwedig i ddysgwyr sydd â heriau penodol. Mae arweinwyr yn deall bod angen gweithio'n agos gyda phartneriaid, yn enwedig yr ysgolion lleol. Bellach, mae gan arweinwyr ffocws cadarnach ar berfformiad; er enghraifft, fe wnaethant gymryd camau priodol yn ystod

yr anawsterau diweddar ym maes adeiladu dysgu yn y gwaith a gwnaethant newidiadau priodol i'r ffordd o adrodd ar ansawdd.

6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

Mae gan y strwythur trefniadaethol newydd ffocws ar wella'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae cyfansoddiad y pwyllgor ansawdd yn cefnogi rôl sicrhau ansawdd newydd y penaethiaid isadrannau. Mae'r coleg yn defnyddio data'n effeithiol fel sylfaen ar gyfer cynllunio gweithredu i wella ansawdd. Penaethiaid isadrannau ar lefelau gweithredol sydd bellach â chyfrifoldeb llwyr am drefniadau hunanasesu. Caiff eu harfarniadau eu herio gan y pwyllgor ansawdd cyn llywio prosesau hunanasesu'r coleg cyfan, yr adroddiad hunanasesu a'r cynllun datblygu ansawdd sy'n deillio o hynny.

Mae prosesau ar waith i arsylwi ar ddisbarthiadau ac mae cymorth targedig ar gael i athrawon y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i wella. Nod gweithgareddau datblygu staff sydd yn yr arfaeth ar gyfer yr wythnosau i ddod yw gwella, rhannu arfer dda ac ymsefydlu prosesau newydd a rhai sydd wedi'u gwella. Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda cholegau lleol eraill, yn enwedig o ran meincnodi, rhannu arfer dda a chyfnewid arsylwyr ar gyfer arsylwi ar gymheiriaid. Mae'r coleg yn adolygu'r prosesau ansawdd newydd yn gyson i asesu eu heffaith ar ddysgwyr a'u hymrwymiad i welliant parhaus.

7 Crynodeb o'r cynnydd o ran yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Mawrth 2010

Gwnaed yr argymhellion o'r adroddiad arolygu diwethaf ym Mawrth 2010 pan wirfoddolodd y coleg i fod yn ail o ddau beilot ar gyfer y trefniadau arolygu cyffredin newydd. Mae'r coleg yn gwneud cynnydd da o ran bodloni'r argymhellion.

Mae'r coleg wedi gwella cyfraddau llwyddo dysgwyr yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu, er bod ychydig yn parhau i danberfformio a'r her yw parhau i gadw i fyny â gwelliannau yn y sector addysg bellach yn fwy cyffredinol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y meysydd dysgu sy'n tanberfformio wedi gostwng ac mae cynlluniau ar waith i ysgogi gwelliant pellach.

Mae'r coleg wedi llunio grŵp ansawdd gyda cholegau eraill yn y rhanbarth i rannu arfer dda mewn addysgu a dysgu. Mae'r grŵp yn rhannu arsylwyr cymheiriaid ac yn defnyddio prosesau meincnodi i gymedroli gwelliannau mewn perfformiad.

Mae'r coleg wedi gwella'i drefniadau ar gyfer cefnogi'r Iaith Gymraeg a dwyieithrwydd ac mae'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r coleg wedi penodi hyrwyddwr dwyieithrwydd i ysgogi gwelliannau yn yr agwedd hon ar y ddarpariaeth. Mae'r staff addysgu a'r staff cymorth bellach yn meddu ar fwy o ymwybyddiaeth o rôl a chyfrifoldeb y coleg i gynyddu cymhwysedd dwyieithog dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r coleg yn cydnabod mai megis dechrau y mae'r gwaith ar yr amcan hwn.

Mae cyflwyno adroddiadau hunanasesu wedi gwella ac maent yn fwy hunanfeirniadol ac arfarnol erbyn hyn. Mae'r adroddiadau'n destun mwy o graffu a her trwy weithredu'r pwyllgor ansawdd a gwaith penaethiaid isadrannau. Mae'r coleg wedi

newid y dogfennau ar gyfer arsylwi ar addysgu a dysgu gan gymheiriaid yn raddol er mwyn talu mwy o sylw i sut mae dysgwyr yn cyflawni yn y dosbarth.

Mae'r coleg wedi gwella'i drefniadau ar gyfer gwranddo ar ddysgwyr ac mae canlyniadau'r prosesau hyn yn cael eu defnyddio i lywio hunanasesu. Mae'r coleg wedi cyflwyno Cynulliad y Dysgwyr, sy'n cynnwys cynrychiolwyr dosbarthiadau yn aelodau. Mae hwn wedi cyfarfod bum gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i drafod a chytuno ar gamau gweithredu yn ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion dysgwyr.

Fe wnaeth 857 o ddysgwyr o'r coleg gwblhau arolwg llais y dysgwr yn 2014. Roedd 80% o'r dysgwyr o'r farn bod y coleg yn dda iawn neu'n dda at ei gilydd. Mae hyn ychydig uwchlaw cyfartaledd y sector, sef 78%. Dywedodd 85% o ddysgwyr fod eu cwrs yn well na'r disgwyl neu fel y disgwyl. Mae hyn ychydig islaw cyfartaledd y sector. Cafwyd yr ymateb cryfaf yn arolwg llais y dysgwr ynghylch addysgu a hyfforddi yn y coleg, gyda 44% yn dweud eu bod yn dda iawn, sy'n cyfateb i gyfartaledd y sector.

Fe wnaeth yr arolygwyr cyswllt adolygu'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r materion a godwyd gan ddysgwyr mewn elfen darpariaeth dysgu yn y gwaith y coleg sy'n cael ei his-gontractio. Roedd y rhain yn ymwneud â llunio'r portffolio tystiolaeth a chwblhau dogfennau cymwysterau. Nodont y camau yr oedd y coleg wedi'u cymryd i wella rheolaeth ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer medrau adeiladu a bydd arolygydd yn dychwelyd i'r coleg yn nhymor yr hydref i adolygu'r sefyllfa'n fanylach.

Argymhellion

A1 Gwella'r deilliannau ar gyfer yr un o bob pum dysgwr sy'n mynychu cyrsiau mewn meysydd dysgu sy'n tanberfformio.

Y camau nesaf

Bydd AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl gyswllt â'r coleg.

Yn gywir

Lin Howells
Cyfarwyddwr Cynorthwyol